OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 1025 (Cy. 263)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU A LLOEGR

## Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *25 Hydref 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Rhagfyr 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 198 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2017.

### Deddf Plant 1989

**2.**—(1) Mae Deddf Plant 1989(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 25C(2)(**3**) (achosion a atgyfeirir, rheoliadau mewn cysylltiad â Chymru).

### Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989

**3.**—(1) Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**4**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 2(6)(c) yn lle "section 6 of the Local Authority Social Services Act 1970" rhodder "section 144 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014".

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) 1989 p. 41.
(**3**) Mewnosodwyd adran 25C gan adran 10(2) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).
(**4**) 1989 p. 42.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

**4.**—(1) Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adrannau 76 ac 81, yn lle "gorchymyn preswylio", ble bynnag y mae'r geiriau yn digwydd, rhodder "gorchymyn trefniadau plentyn".

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

25 Hydref 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 198 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Maent yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ychwanegol at ddiwygiadau a wnaed yn Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Plant 1989 drwy ddatgymhwyso adran 25C(2) o ran Cymru.

Mae rheoliad 3 yn diwygio adran 2(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 drwy roi "section 144 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014" yn lle'r cyfeiriad at "section 6 of the Local Authority Social Services Act 1970".

Cyflwynodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 "child arangements order", yn lle'r gorchymyn preswylio a'r gorchymyn cyswllt. Mae rheoliad 4 yn diwygio Deddf 2014 drwy roi "gorchymyn trefniadau plentyn" yn lle'r cyfeiriadau at "gorchymyn preswylio" yn adrannau 76 ac 81 i adlewyrchu'r newid hwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.